# PWYLLGOR CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU

## 08 Mai 2019

Yn bresennol: Cynghorydd D Clements, Mrs J James, Cynghorydd M James, Dr R Plummer, Cynghorydd A Wilcox.

(Swyddfeydd yr APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 13.30pm – 14.40pm)

**1. Ethol Cadeirydd y Cyfarfod**

**PENDERFYNWYD** penodi Mrs Julie James yn Gadeirydd y cyfarfod cyfredol. Nodwyd y byddai Cadeirydd parhaol yn cael ei benodi yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol fis Mehefin 2019.

**2. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr Allan Archer, y Cynghorydd K Doolin a'r Cynghorydd M Williams.

**3. Datgan Buddiannau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**4. Cylch Gorchwyl**

**PENDERFYNWYD** nodi'r Cylch Gorchwyl.

(Cyrhaeddodd y Cynghorydd P Kidney yr adeg hon.)

**5. Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau**

Estynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd groeso i'r Aelodau i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau.

Fel cyflwyniad, atgoffodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd yr Aelodau bod y Pwyllgor wedi'i sefydlu yn dilyn argymhelliad gan y cyn Weithgor Strategaeth Datblygu Aelodau i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol bod angen i'r Awdurdod ail-gadarnhau ei ymrwymiad i gefnogi a datblygu'r Aelodau ac mai'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hynny oedd codi statws y corff sy'n llywio'r broses gefnogi. Hefyd roedd y Gweithgor wedi argymell bod yr Awdurdod yn anelu at gyrraedd lefel Uwch Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.

Lansiwyd Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn 2005 i arwain, ac o ganlyniad i gydnabod, yr awdurdodau lleol hynny sy'n dymuno darparu safonau uchel o gefnogaeth i'w Haelodau. Roedd dwy lefel i'r Siarter - Lefel Siarter a Lefel Siarter Uwch - ac roedd yn ofynnol i'r awdurdodau hynny oedd wedi llwyddo i gyrraedd y naill lefel neu'r llall gael eu hadolygu bob tair blynedd. Dyfarnwyd Lefel Siarter i'r Awdurdod yn swyddogol fis Tachwedd 2010, ac fe'i hadnewyddwyd yn 2014.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd at restr wirio meini prawf y Siarter Uwch oedd ynghlwm wrth yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw, a dywedodd er bod yr Awdurdod yn bodloni nifer o'r meini prawf oedd yn ofynnol, bod angen adolygu rhai elfennau i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Cyfeiriodd sylw'r Pwyllgor felly at y gyfres ddiwygiedig o ddisgrifiadau rôl a manylebau person yr Aelodau a'r Strategaeth Datblygu Aelodau diwygiedig oedd hefyd ynghlwm wrth ei hadroddiad. Dymunodd gofnodi ei diolch i Mrs J James am ei chymorth i ddiwygio'r ddwy ddogfen.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am gyflwyno dogfennau mor glir a defnyddiol ac roeddent o'r farn y byddai'n fuddiol i Lywodraeth Cymru ddefnyddio Disgrifiad Rôl a Manyleb Person yr Aelodau yn eu proses o recriwtio Aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru. Awgrymwyd y gallai'r Prif Weithredwr godi'r mater hwn yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Gwaith Parciau Cenedlaethol Cymru. Nodwyd gwall teipograffyddol yn adran B3: Disgrifiad o Ddulliau a Chamau Gweithredu yr Awdurdod o ran y rhestr gwirio'r meini prawf ddylai fod wedi darllen Medi 2018.

Gofynnodd yr Aelodau am hyfforddiant blynyddol ar y Cod Ymddygiad. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd mai dyma oedd yn digwydd ar y cyfan tan y llynedd, pan oedd amgylchiadau wedi golygu na lwyddwyd i gynnal yr hyfforddiant. Sicrhaodd y Rheolwr yr Aelodau y byddai hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn cael ei gynnal unwaith y byddai Swyddog Monitro newydd wedi'i benodi.

Bu'r Aelodau wedyn yn trafod y meini prawf mentora, a barnwyd y byddai cynllun 'cyfeillio' ar gyfer Aelodau newydd yn ddull mwy buddiol. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd bod Mrs J James wedi drafftio cynllun 'cyfeillio' ac y byddai hwn yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. Hefyd bu'r Aelodau yn trafod y posibilrwydd o ddosbarthu holl bapurau'r agenda yn electronig yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**:

(a) mabwysiadu'r gyfres ddiwygiedig o ddisgrifiadau rôl a manylebau person;
(b) mabwysiadu'r Strategaeth Cefnogi a Datblygu Aelodau;
(c) mabwysiadu'r egwyddor o gael Cynllun 'Cyfeillio', yn amodol ar gyflwyno mwy o fanylion yn y cyfarfod nesaf, a
(d) bod rhestr wirio y Siarter Uwch yn cael ei diweddaru a'i dwyn yn ôl i'r cyfarfod nesaf.